


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mehefin 13 2023

Presennol :- Cyngorwyr :- Alwyn Gruffydd (Is-Gadeirnydd), John Gwynedd Roberts, Michael Roberts, Carol Hayes, Gwilym Jones, Dr Melfyn Edwards, Marian Roberts (Clerc)
Yn absenoldeb y Cadeirydd, cytunodd yr Is-Gadeirnydd, Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod ac i ymgymryd â dyletswyddau'r Cadeirydd.

42.6.23 Ymddiheuriadau:- Cyngorwyr : Aled Griffith (Cadeirydd), Sandra Bodden Jones, Llywelyn Rhys, Connor Westwood, Llinos Murphy

43.6.23 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a diolchwyd i'r aelodau am droi allan ar noson mor braf. Estynodd yr Is-Gadeirnydd ei gydymdeimlad ar ran y Cyngor i deulu oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar o golli eu mab, Josh Roberts, mewn damwain angeuol ac mewn amgylchiadau trist iawn. Roedd y drasiedi yn fwy miniog am fod y bachgen ifanc wedi marw mor ifanc, ymhell cyn ei amser. Cyfeiriodd at y digwyddiad ym Mhensyflog yn ddiweddar rhwng dau heddwag ag aelod o'r cyhoedd. Roedd yn ddiolchgar fod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater ond dywedodd fod y mater yn codi'r cwestiwn o sut mae aelodau'r Heddlu'n cael eu hyfforddi cyn iddynt gael eu rhyddhau i wasanaethu'r cyhoedd. Dywedodd fod gwendid yn y ffordd y maent yn cael eu paratoi ar gyfer y swydd ac nad dyma'r ymddygiad a ddisgwylir gan heddwision nac unrhyw un arall yn ardal Porthmadog. Roedd yn dymuno llongyfarch gŵr lleol, Malcolm Jones, neu Malci Bach, ar gael ei dderbyn i Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd eleni. Bydd yn cael ei urddo am iddo gymryd rhan ymhob un Râs yr Wyddfa ers 46 o flynyddoedd – dipyn o gamp!

44.6.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

➤ **Cyfarfod Blynyddol Mai 9 2023**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

➤ **Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mai 9 2023**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

45.6.23 Cyfle i'r Cyngorwyr ddatgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

46.6.23 Cyng Dr Melfyn Edwards :- cynnig gofyn am ddiweddariad ar sefyllfa addurno'r dref ar gyfer yr Eisteddfod.

Cafwyd adroddiad gan y Clerc yn adrodd bod :-

y baneri wedi cyrraedd; y polion fflag wedi eu archebu; y posteri ar gyfer Cae Bodawen yn barod i'w casglu; Alan G Jones wedi cytuno i osod y polion a'r baneri yn eu lle; pwyllgor Y Ganolfan wedi gwrthod caniatâd i osod posteri ar ffenestri'r Stafell Groeso; caniatâd wedi ei dderbyn gan reolwr Premier Inn i osod byrddau posteri y tu allan; cais cynllunio wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd i osod posteri; rhagwelir gosod y polion a'r baneri yn yr wythnosau nesaf a posteri Premier Inn o Orffennaf 29 tan Awst 19.

Penderfynwyd :- derbyn adroddiad y Clerc yn ôl cynnig Cyng John Gwynedd Roberts, Cyng Michael Roberts yn eilio.

47.6.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd am gynllun gwagio biniau,

casglu sbwriel a glanhau ar gyfer strydoedd Ardal Porthmadog. (Gweler lluniau o finiau Porthmadog fore Sul Gŵyl y Banc 7.5.23)

Yn absenoldeb Cyng Aled Griffith, penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar 11.7.23.

48.6.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig newid y drefn o ymateb i geisiadau cynllunio sydd yn cael eu derbyn rhwng cyfarfodydd misol ac sydd o'r herwydd angen ymateb unigol.

Yn absenoldeb Cyng Aled Griffith, penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar 11.7.23.

49.6.23 Cyng Gwilym Jones :- cynnig newid y drefn ar raglen y cyfarfod misol i drafod Ceisiadau Cynllunio ar ddechrau'r cyfarfod.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnis Cyng Gwilym Jones a gosod y Ceisiadau Cynllunio yn rhif 5 ar y rhaglen, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

50.6.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig creu dyddiadur misol o ddigwyddiadau lleol er mwyn i Gynghorwyr wybod am y digwyddiadau ac i sefydlu cynrychiolaeth o'r Cyngor ymhob digwyddiad lleol.

Yn absenoldeb Cyng Aled Griffith, penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar 11.7.23.

51.6.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig gyrru llythyr i Cyngor Gwynedd i wneud cais i sefydlu maes pwrpasol i faniau teithiol yn ardal Porthmadog.

Yn absenoldeb Cyng Aled Griffith, penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar 11.7.23.

52.6.23 Cyng Gwilym Jones :- cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd i symud yr arwydd 30 wrth Crown garej i ochor arall y garej.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnis Cyng Gwilym Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio.

53.6.23 Cyng Gwilym Jones :- Cynnig defnyddio peth o arian Incwm Meysydd Parcio ar gyfer gwariant i addurno'r dref ar gyfer yr Eisteddfod.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnis Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

54.6.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Gorffennaf 11 2023 = Gorffennaf 1 2023 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- **Cyng Aled Griffith :-** cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd am gynllun gwagio biniau, casglu sbwriel a glanhau ar gyfer strydoedd Ardal Porthmadog. (Gweler lluniau o finiau Porthmadog fore Sul Gŵyl y Banc 7.5.23)
- **Cyng Aled Griffith :-** cynnig newid y drefn o ymateb i geisiadau cynllunio sydd yn cael eu derbyn rhwng cyfarfodydd misol ac sydd o'r herwydd angen ymateb unigol.
- **Cyng Aled Griffith :-** cynnig creu dyddiadur misol o ddigwyddiadau lleol er mwyn i Gynghorwyr wybod am y digwyddiadau ac i sefydlu cynrychiolaeth o'r Cyngor ymhob digwyddiad lleol.
- **Cyng Aled Griffith :-** cynnig gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd i wneud cais i sefydlu maes pwrpasol i faniau teithiol yn ardal Porthmadog.
- **Cyng Dr Melfyn Edwards :-** cynnig cwyno am gyfleusterau annigonol yng nghanolfan Byw'n lach, Glaslyn.

55.6.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Cyfeiriodd y Cyng John Gwynedd Roberts at lythyr a yrrwyd at Gyfeillion Borth y Gest ar 4.2.23. Eglurodd nad oedd ymateb wedi dod i law oherwydd fod y Cyfeillion mewn cyfnod o newid ac ar ganol ail-ysgrifennu eu Cyfansoddiad. Bydd ymateb yn dod maes o law.

GOHEBIAETH :

56.6.23 ALYS LLOYD JONES C.G., Cronfa cymunedau Eryri

ALYS LLOYD JONES C.G., Canllawiau ar gyfer y grant (copi electronig yn unig 14 tudalen)

Gwnaethpwyd y sylw mai ychydig iawn o amser sydd rhwng agor y cyfnod ceisio am grant ar 2.5.23 â'r dyddiad cau ar 30.6.23. Cytunwyd y dylid pasio'r wybodaeth ymlaen i fudiadau a chymdeithasau lleol fel y gallant fanteisio ar y grantiau.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn pasio'r wybodaeth ymlaen i fudiadau a chymdeithasau lleol a llunio poster amdano i'w osod yn yr hysbysfwrdd ac ar wefan y Cyngor Tref.

57.6.23 JOHN HYWYN WILLIAMS C.G.Torri gwair Cae Bodawen

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

58.6.23 Y GANOLFAN, Llythyr diolch am nawdd mis Chwefror

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

59.6.23 UN LLAIS CYMRU, Cynhadledd arfer arloesol 5.7.23

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

60.6.23 STEFFAN JONES C.G., Ymateb i 13.5.23 Parc Porthmadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

61.6.23 GWENAN MAI ROBERTS C.G., Ymateb i 21.5.23 dympio ar dir Garreg Wen

Penderfynwyd:- gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar 11.7.23.

62.6.23 LLIWEN WILLIAMS, Ymateb i 15.5.23 harddu ar gyfer yr Eisteddfod

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.; gwirio efo Tudur Puw a'r Pwyllgor Apêl lleol i weld os ydynt yn ymwybodol o'r cynnig am sticeri ar gyfer byrnau mawr; gwneud cais i'r Tîm Tacluso ddod i gasglu sbwriel ar Cob Crwn ac ar y llwybr tu ôl i Lidl, yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

63.6.23 DAFYDD GIBBARD C.G. Ymateb i 24.5.23 Cors Borth y Gest

GARETH JONES C.G., Ymateb i 24.5.23 Cors Borth y Gest

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

64.6.23 RICHARD WILLIAMS, Dŵr Cymru

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu i ddiolch i Richard Williams am dynnu sylw'r Cyngor i'r broblem ac i ysgrifennu at Dŵr Cymru i ddatgan pryderon ac i ofyn am eu rhaglen waith ar gyfer ardal Porthmadog, Tremadog, Borth y Gest a Morfa Bychan yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio.

65.6.23 PETER SIMPSON C.G., Ymateb i 338.3.23 cais am fin newydd i Dremadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

66.6.23 FRANCES TAYLOR, Digwyddiad Pensyflog 10.5.23

Cytunwyd fod yn rhaid bod yn ofalus wrth ymateb i'r llythyr hwn gan fod achos troseddol yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd ynglyn â'r digwyddiad.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddatgan y gwerthfawrogi gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog gan fod pob corff cyhoeddus yn Nghymru bellach yn gorfod gweithredu polisi gohebu'n ddwyieithog a hefyd i holi sut mae'r IOPC yn ethol neu yn penodi eu aelodau i oruchwylio ymddygiad yr Heddlu yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

67.6.23 CERI HUGHES THOMAS C.G. Ymateb i 377.4.23 cynllun parcio trigolion

A Pamffled cynllun parcio

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a throsglwyddo'r wybodaeth ymlaen i'r Cyng Nia Jeffreys.

68.6.23 CATRIN HUWS GRWP CYNEFIN

1. , Cynllun peilot Dwyfor
2. Diweddariad Cynllun Tai
3. Holiadur Cynllun Tai

Cytunwyd y dylai swyddogion Cynllun Peilot Dwyfor gysylltu yn fwy uniongyrchol gyda'u cynulleidfa – sef pobl ifanc yr ardal – i ganfod eu barn nhw am y sefyllfa ac i gynnig gwybodaeth a chynngor iddynt. Holwyd os oedd fordd mwy arloesol o gyflwyno eu neges megis cynnal cyfarfod cyhoeddus; defnyddio'r cyfryngau; presenoldeb ar faes yr Eisteddfod? Cytunwyd ei bod yn bwysig i egluro i bobl ifanc Porthmadog beth yn union i'w ddisgwyl o ran cael cartref yn yr ardal gan fod cymaint o gyfyngiadau oherwydd peryglon llifogydd yn effeithio ar sefyllfa dai ardal Porthmadog.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i gynnig yr awgrymiadau uchod yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

69.6.23 ANEURIN MON PARRY C.G., Ymateb i 21.5.23 Garreg Wen

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

70.6.23 GARETH JONES C.G., Ymateb i 24.5.23 Cors Borth y Gest

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

71.6.23 STEFFAN JONES C.G., Ymateb i 13.5.23 arafwch gwaith yn y Parc

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

72.6.23 ALYS LLOYD JONES , Cronfeydd cefnogi SPF

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

73.6.23 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

H.S.B.C.	Llog Banc Ebrill - Mai 2023	£	39.50
----------	-----------------------------	---	-------

Biliau i'w talu :-

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Mai 2023	£	59.09
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Mai 2023	£	922.97
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Mai 2023	£	230.74
4	Cyfoeth Naturiol Cymru	Draenio blynyddol Cae Pawb	£	5.56
5	R.J.Electrics	7 x golau Nadolig newydd	£	3,737.40
6	Harrison Flagpoles	2 x faner Madocks ar gyfer trofan Bodawen	£	89.94
7	Xerox Finance	Llogi llungopiwr o 1.7.23 i 30.9.23	£	104.40
8	Cadwyn Cyf	120 baner Cymru i addurno'r Stryd Fawr	£	474.00
9	Y Ganolfan	Cyfarfod mis Mai	£	40.00
10	Mark Williams	Peintio offer chwarae Bodawen	£	576.00
11	Arena Group	Llungopio	£	5.77
12	*Gardencraft	Llenwi tybiau blodau	£	300.00

13	*Hampshire Flag Co	50 x polyn fflag	£	1,553.40
----	--------------------	------------------	---	----------

(Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

* Dywedodd y Clerc fod Gardencraft wedi cysylltu â hi yn pryderu am gyflwr y blodau maent wedi eu gosod yn y tybiau yn ddiweddar. Mae'r blodau wedi gwywo yn y gwrês diweddar a bu'r Clerc yn dyfrio'r tybiau. Ar gais y Clerc mae staff Thedford House, staff siop ffonau Go Connect a staff Browsers yn garedig iawn wedi cytuno i ddyfrio'r tybiau a chytunwyd y byddai'r Clerc yn prynu can dyfrio i Thedford House ac i Get Connected ar gyfer y dyfrio.

* Nododd y Clerc fod 2 amcanbris arall wedi dod i law - un am £1,374.00 a'r llall am £1,976.40.

74.6.23. CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais .: C23/0396/44/LL (ebostio 16.5.23 angen ymateb unigol erbyn 6.6.23)

Lleoliad : National Schizophrenia Fellowship, 110 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NW
Bwriad : Newid defnydd ac addasiadau i swyddfeydd llawr cyntaf ac ail lawr i ffurfio dwy ystafell wely (en-suite) sengl a swyddfa fach. Agor fyny'r llawr daear rhwng rhif 110 a 112 i wneud lolfa, ystafell fwyta a cegin ar y cyd.

(b) Rhif Cais.: C23/0401/44/DT (ebostio 17.5.23 angen ymateb unigol erbyn 7.6.23)

Lleoliad: Y Bwthyn Tu Hwnt I'r Bwlch, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PA
Bwriad : Dymchwel estyniad cefn presennol ac adeiladu estyniad cefn deulawr ac unllawr newydd

(c) Rhif Cais .: C23/0414/44/LL (ebostio 18.5.23 angen ymateb unigol erbyn 8.6.23)

Lleoliad : Banc Hsbc, 62 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LN
Bwriad //: Tynnu un peiriant arian ac amnewid peiriant arian arall efo un newydd ag arwyddion Newydd

(ch) Rhif Cais.: C23/0408/44/CR (ebostio 22.5.23 angen ymateb unigol erbyn 11.6.23)

Lleoliad : 15 Stryd Yr Eglwys, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RA
Bwriad : Dymchwel estyniad cefn modern a sied a chodi estyniad unllawr newydd, ynghyd a newid drws blaen yr eiddo a tynnu'r render presennol.

Roedd y 4 Cais Cynllunio uchod wedi cyrraedd y Clerc ac wedi cael eu pasio ymlaen i'r Cynghorwyr – yn ôl y drefn arferol - er mwyn iddynt roi eu ymateb unigol i'r ceisiadau oherwydd fod eu dyddiad cau ymhell cyn y cyfarfod hwn. Teimlwyd nad oedd y dull yma'n gweithio ac y dylid rhoi ymateb i geisiadau fel corff wrth iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod misol yn hytrach nac ymateb fel unigolion. Roedd y Cynghorwyr yn pryderu fod rhai ceisiadau felly yn syrthio drwy'r rhwyd ac nad oedd pob cais yn cael y sylw haeddiannol. Cytunwyd mai problem ddiweddar oedd hyn ac na welwyd yr un trafferthion cyn Cofid.

Penderfynwyd :- ysgrifennu at yr Adran Cynllunio i fynegi'r pryderon uchod ac i ofyn iddynt ystyried gyrru pob cais cynllunio at y Clerc erbyn diwedd y mis mewn da bryd i gael eu cynnwys ar raglen y cyfarfod misol dilynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

(d) Rhif Cais.: C23/0447/44/LL(wedi ebostio 7.6.23)

Lleoliad : Caffi Bwlch Y Moch, Bwlch Y Moch Cafe, Bwlch Y Moch Ffordd Prenteg, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SN

Bwriad: Gosod 2 orsaf gyflym gwefru cerbydau trydan i wasanaethu 3 bae parcio presennol

Penderfynwyd : - Dim gwrthwynebiad.

(dd) Rhif Cais .: C23/0297/44/CR (wedi ebostio 7.6.23)

Lleoliad : Y Ship Inn, 14 Stryd Lombard, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AP

Bwriad : Amnewid arwyddion presennol gyda rhai newydd a goleuadau cysylltiedig
Penderfynwyd : - Dim gwrthwynebiad.

(e) Rhif Cais .: C23/0466/44/LL (wedi ebostio 9.6.23)

Lleoliad : Flat, 82 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NW

Bwriad : Estyniad arfaethedig ac addasiadau i fynedfa i fflat presennol

Penderfynwyd : - Dim gwrthwynebiad.

(f) Rhif Cais .: C23/0480/44/HY (wedi ebostio 13.6.23)

Lleoliad: Tesco Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NU

Bwriad: Gosod 3 arwydd polyn fflag a 1 sgrin media LCD ar gyfer yr ardal gwefru cerbydau trydan

Penderfynwyd : - Dim gwrthwynebiad ar yr amod fod yr arwydd Cymraeg yn uniaith Gymraeg.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.20.

Marian Roberts

(Clerc)

17.6.23